RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
28/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
MEHEFIN 15, 2017

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Cam 1, Pasg 2017

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-9777-1

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 1, Pasg 2017

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Dwristiaeth,
Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth
Canolfan QED
Ystâd Trefforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR
Ffôn: 0300 061 6026
Ebost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

## Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU .......... 2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL .......... 4
3. CEFNDIR A METHODOLEG .......... 7
4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN .......... 9
5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR .......... 12
6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR .......... 14
7. PROFFIDIOLDEB .......... 15
8. PERFFORMIAD MARCHNADOEDD .......... 17
9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF .......... 19
10. BREXIT A GWEITHWYR O'R UE YNG NGHYMRU .......... 24

# 1. PRIF GANFYDDIADAU

**Pasg hwyr a thywydd braf yn sicrhau canlyniadau da**

1.1 Mae'r cyfuniad o dywydd braf a Phasg hwyrach wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i 37% o fusnesau. Mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau wedi perfformio'n arbennig o dda, gyda 57% yn croesawu mwy o ymwelwyr nag a gafwyd yn ystod y Pasg y llynedd.

1.2 Mae gweithredwyr safleoedd carafanau a gwersylla, sy’n dibynnu ar y tywydd, hefyd wedi gwneud yn dda, gydag ymron i hanner ohonynt (46%) yn profi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016.

**Cymryd mwy o arian**

1.3 Mae'r rhan fwyaf o sectorau wedi creu mwy o elw hyd yn hyn yn 2017, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ar y cyfan, mae un rhan o dair (34%) o fusnesau wedi adrodd eu bod wedi gwneud mwy o elw, gyda chyfrannau uwch yn y sector atyniadau a gweithgareddau, sy'n perfformio'n dda (50%), a safleoedd carafanau a gwersylla (47%).

**Disgwyliadau uchel ar gyfer tymor yr haf**

1.4 Gyda Phasg cadarn yn sail dda ar gyfer y flwyddyn, mae'n edrych yn debyg y bydd yr haf yn un llwyddiannus i oddeutu dau o bob pump (42%) o fusnesau, sy'n disgwyl gweld mwy o ymwelwyr yn ystod y tymor brig, o'i gymharu â'r haf diwethaf.

1.5 Gyda gobaith o dywydd braf a sych – a chyda Phasg ffyniannus eisoes ar eu cyfrif – mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau (62%) a safleoedd carafanau a gwersylla (57%) yn rhagweld y byddant yn cael mwy o ymwelwyr nag a gawsant y llynedd.

**Diwydiant twristiaeth hyderus**

1.6 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (85%) yn hyderus ynghylch sut y bydd eu busnes yn perfformio dros yr haf. Mae cynnydd yn nifer yr archebion ymlaen llaw wedi helpu hyn, wrth i ymwelwyr sicrhau llecyn ar gyfer eu seibiannau byr a’u gwyliau.

**Brexit heb gael fawr o effaith hyd yn hyn**

1.7 Ar y cyfan, oddeutu 4% o'r gweithlu yn niwydiant twristiaeth Cymru sy'n dod o wledydd yr UE (y tu allan i'r DU), ac mae mwy o weithwyr o’r UE mewn gwestai (9% o'r gweithlu), bwytai, tafarndai a chaffis (5%). Nid yw Brexit wedi cael fawr o effaith ar y gweithlu o'r UE hyd yn hyn, a dywed y rhan fwyaf (81%) nad yw pethau wedi newid.

1.8 Ond cred rhai arweinwyr yn y diwydiant y gall hyn newid yn y dyfodol, gyda llai o weithwyr o’r UE ar gael i'r diwydiant twristiaeth.

1.9 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â sut y gall Brexit effeithio ar archebion yn y dyfodol, gyda 31% yn dweud nad ydynt yn gwybod pa effaith y bydd yn ei chael. Dywed 37% arall nad ydynt yn disgwyl unrhyw effaith ar archebion yn y dyfodol. A chred 18% y bydd yn cael effaith mymryn yn gadarnhaol ar nifer yr archebion y byddant yn eu derbyn yn y dyfodol.

1.10 Mae'r trosolwg gan arweinwyr diwydiant yn dangos llawer o ansicrwydd ynglŷn â sut bydd Brexit yn effeithio ar dwristiaeth Cymru yn y tymor canolig a'r tymor hir. I'r rhan fwyaf, bydd yn achos o weld beth sy'n digwydd, ac ymateb i unrhyw newidiadau os a phan fyddant yn codi.

## 2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

2.1 Rydym wedi cynnal wyth cyfweliad manwl dros y ffôn gyda ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru.

2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

### Dechrau da i'r flwyddyn

2.3 Diolch i'r Pasg hwyr eleni bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i lawer yn y diwydiant, wrth i ymwelwyr dreulio eu gwyliau yng Nghymru. Dywed rhai arweinwyr diwydiant bod y cynnydd da hwn wedi rhoi mwy o hyder ar gyfer gweddill y flwyddyn.

*“Mae'r perfformiad wedi bod yn eithaf da'r Pasg hwn - yr un fath neu'n well na llynedd mae'n debyg. Rydym yn eithaf hyderus wrth fynd i mewn i'r haf.”*

*“Mae'n ymddangos bod cyfnod y Pasg wedi bod yn brysur. Mae'r rhai ar lawr gwlad yn hapus gyda sut mae pethau wedi mynd yn ôl pob golwg."*

*“Mae niferoedd yr ymwelwyr yn dda, maen nhw'n uwch na rhai y llynedd. Mae gennym system adrodd sy'n dangos ein niferoedd ymwelwyr ar gyfer pob wythnos o'r flwyddyn ac mae'n edrych yn dda. Rydym yn eithaf hyderus wrth edrych ymlaen at yr haf."*

*“Roedd llawer o bobl o gwmpas adeg y Pasg.”*

*“Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl yn eithaf hyderus wrth edrych ymlaen at yr haf.”*

### Pryderon ynglŷn â gweithwyr gwerthfawr o’r UE

2.4 Mae rhai arweinwyr diwydiant yn bryderus ynghylch sut y gall pleidlais Brexit effeithio ar weithwyr yr UE, y dibynnir arnynt o fewn rhai sectorau twristiaeth. Dywed y rhai hynny sy'n cyflogi gweithwyr yr UE eu bod yn gweithio'n galed ac yn fwy ymroddedig i yrfa yn y diwydiant twristiaeth. Pe byddai trafodaethau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn anos i bobl o'r UE sy'n gweithio yng Nghymru, gallai hyn gael effaith negyddol ar y diwydiant yng Nghymru.

*“Os oes problemau i gael gweithwyr o’r UE yna gallai hynny fod yn wael iawn i fwytai a gwestai.”*

*“Pan fydd pobl leol yn dechrau gweithio yn y diwydiant, maen nhw'n tueddu i roi'r gorau iddi ar ôl pedwar neu bum diwrnod, tra mae gweithwyr o'r UE yn gweithio'n galetach. Mae gan y bobl leol sydd wedi cael mwy o addysg uchelgais ac nid ydynt eisiau gweithio nac aros yn y diwydiant twristiaeth neu letygarwch am gyfnod hir, maen nhw eisiau cael swydd well neu fynd i brifysgol".*

*“Mae gan bobl Ewrop lawer mwy o barch tuag at y diwydiant ac maen nhw'n deall ei fod yn ddiwydiant gwerthfawr. Tra nad yw pobl yn y DU yn edrych yn ffafriol ar y diwydiant, yn arbennig y rhai hynny yn y dosbarth canol i'r dosbarth uchaf".*

*“Byddwn yn eithaf amharod i ddod yma pe bawn i'n weithiwr o Ewrop. Mae'n siŵr y byddai'n well gen i fynd i rywle arall i ymgartrefu. Byddwn yn mynd i rywle lle nad yw peidio â dod o'r ardal yn broblem, rhywle lle na fyddai gofyn i chi adael yn y dyfodol. Bydd denu talent yn y dyfodol yn anodd. Rwy'n credu bod y talentau mwyaf yn mynd i rannau eraill o Ewrop."*

*“Mae pawb ychydig yn nerfus am y sefyllfa gyda gweithwyr yr UE. Mae'r gweithwyr hyn yn rhan fawr o'n cymuned. Gallai hon ddod yn broblem fwy os ydym yn cael ein gweld fel gwlad sydd ddim yn croesawu gweithwyr o dramor. Ond eto, nid ydym yn gwybod yn iawn beth fydd y goblygiadau felly mae pawb yn cadw llygad ar y mater ac yn aros i weld beth fydd yn digwydd."*

### Ansicrwydd pellach ynghylch effaith Brexit

2.5 Ynghyd â phryderon ynglŷn â sut y bydd trafodaethau Brexit yn effeithio ar weithwyr yr UE, nid yw'n hysbys eto pa effaith fydd penderfyniadau llywodraethol yn eu cael ar y busnes ac ar y diwydiant twristiaeth ehangach. Mae hyn yn achosi rhywfaint o ansicrwydd ymysg rhai pobl. Ac i'r mwyafrif mae'n fater o aros a gweld beth fydd yr effeithiau yn y tymor canolig a'r tymor hir.

*“Nawr bod Erthygl 50 wedi’i gweithredu, rwy'n credu bod pobl yn aros a gwylio. Nid ydym yn mynd i wybod sut bydd Brexit yn effeithio ar dwristiaeth, ond fe ddaw pethau’n gliriach. Ni fyddwn yn gwybod unrhyw beth cadarn am ychydig o flynyddoedd.”*

*“Mae llawer o ansicrwydd ar hyn o bryd.”*

2.6 Mae rhai wedi sylwi ar gynnydd mewn prisiau yn dilyn Brexit, sy'n cael effaith ar y gost o redeg busnes.

*“Mae Brexit wedi achosi llawer o ansicrwydd. Mae prisiau wedi cynyddu hefyd, mae nwyddau fel olew wedi codi i'r entrychion. Mae'n eithaf brawychus ac mae llawer o ansicrwydd o gwmpas.”*

*“Rydym wedi gweld chwyddiant o ganlyniad i'r cwymp yng ngwerth punnoedd sterling. Mae prynu nwyddau ac ati'n ddrytach.”*

### Aros yn gadarnhaol am yr effaith yn y dyfodol

2.7 Er bod goblygiadau Brexit yn dal yn aneglur, mae rhai arweinwyr yn y diwydiant o’r farn bod Cymru mewn sefyllfa dda i ymdrin ag unrhyw effeithiau. Am y tro, mae'r bunt wannach wedi gwneud y DU yn well gwerth am arian i ymwelwyr o Ewrop ac wedi hybu cynnydd mewn gwyliau gartref.

*“Er bod rhai yn ansicr oherwydd Brexit, mae'r ffaith bod Prydain yn rhatach a bod y rhai yn y maes twristiaeth yn groesawgar ar y cyfan yn golygu bod pawb yn meddwl bod gennym siawns da o ddenu mwy o bobl yn y dyfodol. Bydd pobl o'r tu allan i'r DU yn cael mwy am eu harian.”*

*“Gan fod Prydain yn rhatach, rwy'n credu bydd mwy o bobl o'r DU yn dewis cymryd gwyliau yma.”*

*"Mae pobl Ewrop yn cael gwell bargeinion ar hyn o bryd oherwydd y bunt – mae hyn wedi helpu. Mae'n llawer rhy gynnar i ddweud beth fydd goblygiadau Brexit."*

*"Mae'r bunt isel yn sicr wedi gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n dod yma o Ewrop ac i bobl sy'n cymryd gwyliau gartref."*

**Y prif atyniadau'n denu**

2.8 Mae ymwelwyr yn cael eu denu gan addewid o atyniadau gwych a sefydliadau o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae hyn wedi atgyfnerthu Y Flwyddyn Chwedlau, sydd wedi helpu i roi rhai rhannau o'r wlad yn gadarn ar y map a disgwylir y bydd yn cael effaith gadarnhaol yn y tymor hir.

*"Mae gweithgareddau 'gwefreiddiol' fel gwifrau gwib Zip World, sydd wedi cael effaith ddiamheuol ar yr ardal leol ac ychydig yn ehangach hefyd."*

*"Mae'r Flwyddyn Chwedlau wedi bod yn dda i ni, mae wedi cyd-fynd gyda'r hyn rydym yn ei ddarparu. Nid oedd yn cael ei weld fel digwyddiad untro; roedd yn cael ei weld fel rhyw fath o gatalydd neu lansiad ar gyfer blynyddoedd i ddod."*

*"Mae mwy a mwy o bobl yn meddwl yn wahanol i'r disgwyl mewn perthynas â'r diwydiannau twristiaeth antur arferol. Mae busnesau'n ymddangos sy'n cynnig pethau gwahanol i'r dwristiaeth antur gonfensiynol. Mae Zip World yn enghraifft o hynny ac mae wedi adfywio rhanbarth, yn yr un modd â Surf Snowdonia. Maen nhw'n denu pobl, a phobl wahanol hefyd - pobl na fyddent yn dod i Gymru fel arfer. Wedyn mae'r bobl hyn yn gwneud pethau eraill tra maen nhw yn yr ardal."*

**Hwb gan Gynghrair y Pencampwyr UEFA**

2.9 Mae cefnogwyr pêl-droed ar fin glanio yng Nghaerdydd yr haf hwn ar gyfer gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA. Disgwylir i oddeutu 300,000 o bobl ymweld â'r brifddinas, mae llawer o weithredwyr twristiaeth – yn arbennig yn ne'r wlad – yn edrych ymlaen at hwb cadarnhaol i fusnesau yn y rhanbarth.

*"Cyn gynted ag y cafodd dyddiadau Cynghrair y Pencampwyr eu cyhoeddi fe lenwodd y gwestai yn yr ardal ar unwaith. Mae digwyddiadau yng Nghaerdydd bob amser yn golygu bod rhywfaint o fusnes yn dod ein ffordd ni, felly rydym yn hyderus. Nid y gwestai yn unig a fydd yn elwa, ond yr holl fusnesau eraill hefyd, yn arbennig bwytai a thafarndai."*

*"Yn amlwg bydd gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn dda i'r ardal ac i'r rhanbarth."*

# 3. CEFNDIR A METHODOLEG

**Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?**

3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phump 'cam' ymchwil bob blwyddyn.

3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â Phasg 2017, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

**Sut y cynhelir yr arolwg?**

3.3 Mae'r Arolwg hwn ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, a oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.

3.4 Rydym wedi cynnal 802 o gyfweliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddosbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 80 ymateb arall. Mae'r sampl gyfan o 882 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%.

3.5 Mae'r sampl o 882 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 88 | 47 | 81 | 68 | **284** |
| Llety hunanarlwyo | 92 | 51 | 104 | 44 | **291** |
| Safleoedd carafanau / gwersylla | 36 | 13 | 29 | 6 | **84** |
| Hostelau | 11 | 10 | 5 | 5 | **31** |
| Atyniadau | 28 | 12 | 21 | 27 | **88** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 6 | 18 | 13 | 10 | **47** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 21 | 15 | 9 | 12 | **57** |
| **Cyfanswm** | **282** | **166** | **262** | **172** | **882** |

3.6 Mae oddeutu 59% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd ac mae 41% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio yn berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

3.7 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Ebrill. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

# 4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN

## PERFFORMIAD YN ÔL SECTOR




### Tywydd braf a Phasg hwyr yn rhoi hwb i fusnesau

4.1 Mwynhaodd Cymru ysbeidiau o dywydd braf dros wyliau'r Pasg, a oedd yn hwyrach nac yn y blynyddoedd blaenorol. Gyda'i gilydd arweiniodd y ddau ffactor hyn at gynnydd mewn ymwelwyr i rai busnesau yng Nghymru. Ar y cyfan, mae 37% wedi croesawu mwy o ymwelwyr eleni o gymharu â Phasg 2016.

4.2 Yn arbennig, mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau wedi profi hwb yn 2017, gyda 57% yn dweud eu bod wedi derbyn mwy o ymwelwyr.

*"Mae pobl yn gwirio ap tywydd cyn teithio a daeth llwyth o bobl ar ddydd Sadwrn y Pasg am fod y tywydd yn dda iawn."*
Atyniad

*"Roedd y tywydd gwell a Phasg hwyrach wedi helpu'n fawr."*
Atyniad

*"Cawsom gynnydd o 20% mewn ymwelwyr dros bedwar diwrnod penwythnos y Pasg eleni o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol."*
Atyniad


### Mwy o wersyllwyr yn codi pebyll yn 2017

4.3 Mae yn agos at hanner (46%) gweithredwyr safleoedd carafanau a gwersylla yn nodi bod mwy o bobl wedi codi gwely ar eu safle o'i gymharu â 2016. Dywed rhyw hanner (49%) o'r rhai sydd wedi profi cynnydd fod y tywydd gwell wedi annog gwersyllwyr i godi pebyll, ac mae 16% yn nodi'r Pasg hwyr fel rheswm dros fwy o ymwelwyr.

*"Roedd y Pasg yn hwyrach ac roedd yr ardal gyfan yn brysur iawn."*
Safle carafanau / gwersylla

*"Llwyddodd y tywydd da a'r Pasg hwyrach i ddod â mwy o fusnes."*
*Safle carafanau / gwersylla*

## TUEDD O RAN PERFFORMIAD





**Mae sector twristiaeth Cymru'n dangos gwelliant parhaus**

4.4 Mae dilyn perfformiad busnes ym mhob cam yn dangos sut mae'r diwydiant yn gwella'n gyffredinol. Ers y Pasg y llynedd (Cam 1 2016), mae cyfran y busnesau sy'n nodi cynnydd wedi codi.

4.5 Ar y pwynt hwn yn y flwyddyn, mae 37% wedi gweld mwy o ymwelwyr nag yn ystod y Pasg y llynedd, pan welodd 21% gynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2015.

## PERFFORMIAD YN ÔL RHANBARTH





**Twristiaeth yn gwella ledled y wlad**

4.7 Mae pedwar rhanbarth Cymru'n nodi niferoedd uwch o ymwelwyr y Pasg hwn o'i gymharu â’r llynedd. Bu'r gwelliannau mwyaf yn y de-orllewin, gyda 41% yn nodi cynnydd o’i gymharu â chyfnod y Pasg 2016.

4.8 Cafwyd cynnydd yn ymron i un rhan o dair o fusnesau yn y rhanbarthau eraill (canolbarth Cymru 37%; de-ddwyrain Cymru 36%; gogledd Cymru 32%).

## 5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR




### Tywydd gwell yn denu mwy o ymwelwyr

5.1 Dywed ymron i un rhan o dair (35%) o ymatebwyr sydd wedi derbyn mwy o ymwelwyr eleni bod tywydd gwell wedi cyfrannu at y cynnydd, wrth i bobl fynd i ffwrdd dros y gwyliau Pasg cynhesach.

*"Roedd yn brysur iawn ac roedd y tywydd yn sych ac yn braf!"*
Llety hunanarlwyo

*"Roedd y tywydd gwell yn golygu bod mwy o bobl yn aros yn yr ardal leol."*
Bwyty

5.2 Mae cyfran uwch o fusnesau sy'n dibynnu ar y tywydd yn nodi eu bod wedi elwa ar dywydd gwell. Mae ymron i hanner y safleoedd carafanau / gwersylla (49%) ac atyniadau a gweithgareddau (52%) wedi gweld mwy o ymwelwyr y Pasg hwn, o'i gymharu â 2016.

5.3 Nododd cyfrannau uwch o fusnesau yn y de-orllewin (41%) a'r de-ddwyrain (40%) y tywydd fel rheswm dros fwy o ymwelwyr dros gyfnod y gwyliau, o'i gymharu â rhanbarthau eraill (gogledd 30%; canolbarth 25%).

**Pasg hapus!**

5.4 Cyfeiriodd 13% o'r rhai a welodd gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr at y Pasg hwyr fel rheswm dros y cynnydd. A dywed 16% o leoliadau llety â gwasanaeth a safleoedd carafanau a gwersylla ei fod wedi helpu i roi hwb i fusnes.

**Seibiannau byrrach**

5.5 Trwy gyfrwng y sylwadau agored, nododd rhai busnesau eu bod wedi sylwi bod pobl yn aros am gyfnod llai. Mae rhai wedi gostwng isafswm y nifer o nosweithiau gall ymwelwyr aros ac maent yn dweud bod hyn wedi helpu i annog mwy o archebion.

*“Rydym yn cymryd archebion am gyfnodau byrrach yn awr, yn hytrach na rhai am wythnos.”*
Llety hunanarlwyo

*“Wedi newid i archebion penwythnos yn hytrach nag wythnosol yn unig.”*
Llety hunanarlwyo

*“Gwnaethom benderfynu cynnig penwythnosau'n unig y tu allan i'r tymor, yn hytrach nag wythnos yn unig fel roeddem yn ei wneud yn flaenorol, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol.”*
Llety hunanarlwyo


**Priodasau yng Nghymru**

5.6 Dywed ychydig o fusnesau eu bod wedi gweld mwy o gyplau'n priodi yng Nghymru dros gyfnod y Pasg, sydd wedi helpu i gynyddu niferoedd eu hymwelwyr.

*“Tair priodas dros y Pasg.”*
Llety hunanarlwyo

*“Mwy o briodasau.”*
Llety â gwasanaeth

# 6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR




### Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â gostyngiad mewn ymwelwyr

6.1 Mae oddeutu un o bob pump (21%) o'r holl fusnesau'n nodi llai o ymwelwyr dros y Pasg o'i gymharu â’r llynedd. Ond mae'r rhesymau dros y gostyngiad hwn yn aneglur i 38% o'r ymatebwyr hyn, sy'n dweud nad ydynt yn gwybod pam y bu iddynt dderbyn llai o ymwelwyr.


> *“Dydw i ddim wedi cael dim ymwelwyr. Dydw i ddim yn gwybod pam. Mae'r wefan, Facebook, Twitter a phopeth yn gweithio. Wn i ddim beth sy'n digwydd.”*
> Llety â gwasanaeth

### Y Pasg dan gwmwl i rai

6.2 Er bod llawer o fusnesau'n falch o weld tywydd gwell yn denu mwy o ymwelwyr i'w busnesau dros y Pasg, cyfeiriodd ambell un ohonynt (11%) at y tywydd fel rheswm dros gwymp yn nifer y bobl a gafodd groeso ganddynt.

> *“Roedd y tywydd yn ofnadwy yma'r Pasg hwn. Dyma'r tro cyntaf i ni fethu â chodi unrhyw bebyll felly mae busnes ar i lawr ar y funud, ond gobeithio y bydd ar i fyny eto unwaith i'r tywydd wella.”*
> Safle carafanau / gwersylla

# 7. PROFFIDIOLDEB





**Cynnydd mewn proffidioldeb i'r rhan fwyaf o sectorau**

7.1 Mae sectorau wedi gweld cynnydd mewn elw hyd yn hyn eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ar y cyfan, mae un rhan o dair (34%) o fusnesau wedi adrodd eu bod wedi gwneud mwy o elw.

7.2 Mae nifer o atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau wedi manteisio ar dywydd da a'r Pasg hwyrach, gyda hanner ohonynt (50%) yn nodi cynnydd yn eu helw. Yn yr un modd, mae 47% o safleoedd carafanau a gwersylla'n dweud yr un peth.

7.3 Mae wedi bod yn ddechrau gwell i'r flwyddyn hefyd i fwytai, tafarndai a chaffis, y mae 41% ohonynt wedi cofnodi mwy o elw o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016.

## TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB





**Proffidioldeb yn well dros y flwyddyn ddiwethaf**

7.4 Ar y cyfan, bu cynnydd calonogol mewn elw i fusnesau twristiaeth ledled Cymru ers dechrau 2016.

7.5 Mae'n ymddangos bod y diwydiant mewn sefyllfa gryfach nac y bu ynddo, gydag oddeutu un rhan o dair (34%) yn nodi mwy o elw ar y pwynt hwn yn y flwyddyn o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, pan nododd chwarter ohonynt (25%) eu bod yn gwneud yn well nac yr oeddent yn 2015.

# 8. PERFFORMIAD MARCHNADOEDD




### Perfformiadau cadarn ar draws pob marchnad

8.1 Mae perfformiadau'r farchnad dros fisoedd cyntaf 2017 wedi aros yn gyfartal â'r flwyddyn ddiwethaf i'r rhan fwyaf o fusnesau.

### Gwelliannau bach yng Nghymru a'r DU


8.2 Mae'r DU y tu allan i Gymru wedi bod yn ffynhonnell mwy o ymwelwyr i oddeutu un o bob pump (18%) o fusnesau, ac mae 14% wedi croesawu mwy o ymwelwyr o Gymru, wrth i fwy o bobl Prydain ddewis gwyliau gartref.

*"Rydym yn sicr wedi gweld mwy o ymwelwyr o'r DU (Lloegr) yn y blynyddoedd diweddar."*
Llety hunanarlwyo

*"Rydym yn cael llawer mwy o Saeson."*
Safle carafanau / gwersylla

*"Rydym wedi cael mwy o dwristiaid o Loegr hyd yn hyn eleni."*
Safle carafanau / gwersylla

## EHANGDER YMWELWYR YN ÔL MARCHNAD




*Mae nifer o weithredwyr wedi methu â rhoi dadansoddiad dibynadwy o'u cwsmeriaid yn ôl marchnad; mae'r rhain wedi eu heithrio o'r canlyniadau uchod*

### Tri o bob pum ymwelydd yn dod o'r DU y tu allan i Gymru

8.3 Mae tua thair rhan o bump (59%) o ymwelwyr twristiaeth i Gymru/yng Nghymru yn dod o'r tu allan i Gymru. Mae marchnad Cymru'n darparu 29% o'r busnes. Yr Almaen yw'r wlad unigol fwyaf arwyddocaol y tu allan i'r DU, ac mae'n cyfrannu oddeutu 2.5% o ymwelwyr.

8.4 Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng sectorau'n cynnwys y canlynol:

- Mae'r sector hunanarlwyo'n derbyn cyfran llawer uwch (74%) o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru) na'r sectorau eraill
- Caiff ymwelwyr â Chymru eu cynrychioli'n bennaf ymysg bwytai / tafarndai / caffis (48% o gwsmeriaid twristiaeth), atyniadau a darparwyr gweithgareddau (45%) a safleoedd carafanau a gwersylla (45%).
- Mae ymwelwyr Ewropeaidd (y tu allan i'r DU) yn cynrychioli 15% o westeion sy'n aros mewn hostelau – sy'n uwch nac mewn sectorau eraill.


8.5 Mae gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth yng Nghymru'n cynnwys y canlynol:

- De-ddwyrain Cymru sy'n denu'r gyfran uchaf (17%) o ymwelwyr o'r tu allan i'r DU
- Gogledd Cymru sy'n denu'r gyfran uchaf (71%) o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru).

8.6 Mae'r canlyniadau uchod i gyd yn debyg iawn i'r tro diwethaf y gofynnwyd y cwestiwn (Medi 2016).

# 9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF

## DISGWYLIADAU YN ÔL SECTOR




### Disgwyl perfformiad da dros yr haf

9.1 Mae oddeutu dau o bob pump (42%) o fusnesau'n disgwyl croesawu mwy o ymwelwyr yn ystod yr haf eleni o'i gymharu â haf 2016.

9.2 Mae llawer o fusnesau eisoes yn cymryd archebion ymlaen llaw ar gyfer y tymor i ddod, ac mae rhai yn llawn dros yr haf. Ymddengys bod mwy o archebu ymlaen llaw yn digwydd, sy'n helpu busnesau i edrych yn gadarnhaol ar y misoedd i ddod.

### Tymor prysur i atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau

9.3 Mae'r haf yn edrych yn ddisglair i atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau, ac mae 62% ohonynt yn disgwyl derbyn mwy o ymwelwyr na'r llynedd. Er bod llawer yn disgwyl y bydd tymor cynnes a sych yn denu ymwelwyr, mae ffactorau eraill yn cyfrannu at y disgwyliadau uchel.

9.4 Mae rhai wedi sylwi ar gynnydd yn nifer yr archebion ymlaen llaw.

*"Mewn gwirionedd rydym yn derbyn archebion, ymlaen llaw – rydym yn gweithio tri i naw mis ymlaen llaw."*
Gweithredwr gweithgareddau

*“Gan fod mwy o bobl yn gwybod ein bod ni yma, mae gennym gyrsiau sydd eisoes yn llawn ar gyfer yr haf. Mae'n debyg na ddigwyddodd hyn tan fis Mehefin y llynedd.”*
Gweithredwr gweithgareddau

9.5 Mae ffactorau eraill yn cynnwys mwy o weithgareddau hyrwyddo a gwella neu gynyddu nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, i ddenu mwy o niferoedd.

*“Rydym yn gwneud rhywfaint o hyrwyddo, felly rwy'n credu y byddant yn mynd yn dda.”*
Atyniad

*“Bydd y digwyddiadau rydym yn eu cynnal yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, rwy'n hyderus ynglŷn â hynny.”*
Atyniad

*“Mwy o ymwelwyr oherwydd ein strategaeth farchnata ein hunain a'r cyfryngau cymdeithasol.”*
Gweithredwr gweithgareddau

**Safleoedd gwersylla sy'n dibynnu ar y tywydd yn gobeithio am dymor heulog**

9.6 Gyda'r haf ar ei ffordd, mae 57% o fusnesau carafanau a gwersylla'n disgwyl i fwy o bobl ddefnyddio'u safleoedd eleni o'i gymharu â’r llynedd. Ond mae golygon pawb ar y tywydd – gan obeithio am dymor cynnes a sych.

*“Mae'n mynd i ddibynnu ar y tywydd i raddau helaeth iawn, ond rydym yn eithaf hyderus.”*
Safle carafanau / gwersylla

*“Rydym yn disgwyl bod yn llawn yr haf hwn.”*
Safle carafanau / gwersylla

*“Rydym wedi derbyn llawer o archebion hyd yn hyn, felly rydym yn obeithiol iawn.”*
Safle carafanau / gwersylla

*“Hyderus ar gyfer yr haf ond mae busnes yn ddibynnol iawn ar y tywydd.”*
Safle carafanau / gwersylla

**Mwy o bobl yn bwyta allan**

9.7 Mae ymron i hanner (47%) yr holl fwytai, tafarndai a chaffis yn disgwyl gweini ar fwy o gwsmeriaid llwglyd yr haf hwn. Fel rhai sectorau eraill, mae gobaith y bydd tywydd da yn annog mwy o ymwelwyr i fentro allan yng Nghymru, gan fod yr haul yn annog pobl i fynd allan.

*“Rydym yn hyderus ac yn barod amdani, cyn belled â bod yr haul allan!”*
Bwyty / tafarn / caffi

*“Rwy'n disgwyl dwywaith cymaint o ymwelwyr yr haf hwn.”*
Bwyty / tafarn / caffi

**Hostelau i gynnig gwelyau i fwy o westeion**

9.8 Yn dilyn Pasg llwyddiannus, disgwylir i'r haf hwn ddod â mwy o ymwelwyr trwy ddrysau 43% o hostelau ledled Cymru, ac mae archebion eisoes yn llifo i mewn i rai.

*"Mae niferoedd wedi bod yn uwch hyd yn hyn ac mae gennym gryn dipyn o archebion ymlaen llaw ar gyfer yr haf."*
Hostel

*"Mae gennym archebion ymlaen llaw yn barod, prysur iawn."*
Hostel

**Darogan hwb i lety â gwasanaeth**

9.9 Mae oddeutu dau o bob pump (42%) o ymatebwyr o'r sector llety â gwasanaeth yn paratoi ar gyfer haf gyda mwy o ymwelwyr na'r llynedd. Fel sectorau eraill, ymddengys bod cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n archebu ymlaen llaw.

*"Rydym yn llawn nes mis Gorffennaf. Yn y blynyddoedd blaenorol byddem yn derbyn archebion munud olaf, ond nawr mae gennym archebion trwy'r haf i gyd."*
Llety â gwasanaeth

*"Rydym yn derbyn archebion yn llawer cyflymach na'r llynedd."*
Llety â gwasanaeth

*"Rydym yn llawn! Rydym wedi derbyn llawer o archebion yn barod."*
Llety â gwasanaeth

*"Rydym yn gwneud 50% yn well nag yn ystod unrhyw flwyddyn flaenorol o ran archebion ymlaen llaw. Mae maint y busnes yn parhau i dyfu."*
Llety â gwasanaeth

**Disgwyl llai o dwf i weithredwyr hunanarlwyo**

9.10 O'i gymharu â sectorau eraill, mae cyfran sylweddol lai (28%) o fusnesau hunanarlwyo'n disgwyl mwy o ymwelwyr yr haf hwn. Mae dros hanner ohonynt (53%) yn disgwyl yr un faint o ymwelwyr â haf 2016.


9.11 Fel sectorau eraill, dywed llawer o fusnesau bod archebion ymlaen llaw eisoes yn llifo mewn ar gyfer y tymor i ddod.

*"Rydym yn llawn ar gyfer yr haf."*
Llety hunanarlwyo

*"Cawsom haf da iawn y llynedd ac rydym yn disgwyl i hynny barhau yn ystod yr haf hwn."*
Llety hunanarlwyo

*"Roeddwn yn llawn y llynedd ac rwy'n llawn eleni."*
Llety hunanarlwyo

## HYDER YN ÔL SECTOR




### Digon o hyder wrth i'r haf agosáu

9.12 Mae'r hyder ar draws y diwydiant twristiaeth yn galonogol, wrth i ddyddiau cynnes yr haf ddod â gobeithion uchel am berfformiad busnesau.


9.13 Gyda llawer o fusnesau'n derbyn archebion ymlaen llaw ar gyfer yr haf, ac yn dilyn Pasg da, mae'r rhan fwyaf (85%) o fusnesau'n hyderus ar gyfer y misoedd i ddod.

*"Rydym yn derbyn eithaf tipyn o archebion felly rwy'n hyderus iawn."*
Llety â gwasanaeth

*"Rydym yn hyderus iawn ar gyfer tymor yr haf. Rydym yn disgwyl i fusnes fod yn weddol gyson."*
Safle carafanau / gwersylla

*"Rydym wedi bod yn llawn bob haf ac mae archebion ymlaen llaw yn dda. Rydym wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn bob tro."*
Llety â gwasanaeth

## TUEDD MEWN HYDER





### Hyder calonogol yn parhau

9.14 Mae'r tuedd cyfunol mewn hyder ar draws pob cam yn dangos bod diwydiant twristiaeth Cymru mewn hwyliau da. O'i gymharu â blwyddyn yn ôl, cafwyd gwelliant yng nghyfran busnesau 'hyderus iawn', sydd wedi codi o 29% Pasg diwethaf i 40%.

# 10. BREXIT A GWEITHWYR O'R UE YNG NGHYMRU

## GWEITHWYR O'R UE MEWN BUSNESAU TWRISTIAETH




### Cyfrannau uwch o weithwyr o'r UE mewn bwytai a hostelau


10.1 Ar y cyfan, mae gan 12% o fusnesau yn y diwydiant twristiaeth bobl yn gweithio iddynt sy'n hanu o'r UE ond nad ydynt yn ddinasyddion y DU. Mae hyn yn wir ar gyfer mwy o fwytai, tafarndai a chaffis (33%) a hostelau (26%), ynghyd â llety â gwasanaeth (17%).

*"Rydym yn dibynnu ar weithwyr o dramor."*
Bwyty / tafarn / caffi

### Mae gweithwyr o'r UE yn cynrychioli rhyw 4% o'r gweithlu

10.2 Yn defnyddio data a ddarparwyd gan weithredwyr ynglŷn â nifer y bobl maent yn eu cyflogi a chyfran y gweithwyr o'r UE, mae oddeutu 4% o'r holl weithwyr yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn hanu o'r UE ac nid ydynt yn ddinasyddion y DU. Mae'r gyfran hon ar ei huchaf ymysg gwestai (9% o weithwyr o'r UE) a bwytai, tafarndai a chaffis (5%).


**NEWID MEWN CYFRANNAU**




**Cynnydd bach yn y gweithwyr o'r UE ers pleidlais Brexit**

10.3 Tra bod y rhan fwyaf (81%) o fusnesau sy'n cyflogi gweithwyr o’r UE yn dweud na fu unrhyw newid yn y gyfran maent yn eu cyflogi, dywed 13% eu bod wedi cyflogi mwy o'i gymharu â 6% sy'n cyflogi llai o weithwyr o’r UE ers i Brydain bleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

## EFFAITH BREXIT




**Rhywfaint o obaith am effaith gadarnhaol ar archebion yn dilyn Brexit**

10.4 Mae effaith pleidlais Brexit yn y tymor hir eto i'w gweld. I ddiwydiant twristiaeth Cymru, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch beth fydd yr effaith ar fusnesau, gyda 31% yn methu â darogan sut y gallai effeithio ar niferoedd ymwelwyr.

10.5 Nid yw ymron i ddau o bob pump (37%) yn credu y bydd pleidlais Brexit yn cael unrhyw effaith ar eu harchebion yn y dyfodol.

10.6 Ond o'r rhai sydd yn darogan effaith ar archebion, mae cyfran uwch (23%) yn disgwyl effaith gadarnhaol o'i gymharu â'r rhai sy'n credu y bydd pleidlais Brexit yn golygu effaith negyddol (9%).

**Disgwyl mwy o wyliau gartref**

10.7 Un o'r rhesymau sy'n cael ei grybwyll amlaf ynglŷn â pham mae busnesau'n disgwyl effaith gadarnhaol ar archebion yw'r cwymp yng ngwerth y bunt. Mae rhai yn disgwyl i hyn arwain at fwy o wyliau gartref gan bobl Prydain wrth i gyrchfannau tramor gynnig llai o werth am arian.

*"Os yw'r gyfradd gyfnewid yn disgyn, yna bydd pobl yn fwy tueddol o aros yn y DU ar eu gwyliau."*
Llety hunanarlwyo

*"Gan fod yr ewro'n eithaf cryf o'i gymharu â'r bunt neu'r ddoler, mae pobl yn dueddol o aros yn y DU."*
Llety â gwasanaeth

*"Rydym yn gobeithio y bydd mwy o bobl yn cymryd gwyliau gartref o ganlyniad i Brexit."*
Bwyty / tafarn / caffi

### Gwerth y DU i gynyddu i ymwelwyr o dramor

10.8 Pe bai gwerth y bunt yn parhau yn is na'i gwerth cyn Brexit, gallai ymwelwyr o dramor gael mwy o werth am arian, gan wneud y DU – gan gynnwys Cymru – yn gyrchfan fwy deniadol yn ariannol. Pe bai hynny'n digwydd, mae llawer o fusnesau'n gobeithio y byddant yn gweld mwy o ymwelwyr o dramor.

*"Mae'r bunt wedi cwympo felly mae mwy o bobl Ewrop yn dod ar wyliau yma."*
Llety â gwasanaeth

*"Ymddengys mai'r brif effaith yw'r bunt yn colli gwerth yn erbyn yr ewro. Byddwn yn disgwyl mwy o bobl o'r cyfandir, a ddylai fod yn effaith gadarnhaol."*
Llety hunanarlwyo

*"Mwy o Brydeinwyr yn cymryd gwyliau yn y DU a mwy o ymwelwyr o dramor yn cyrraedd gan fod y bunt yn wannach."*
Safle carafanau / gwersylla

### Cadw golwg fanwl ar Brydain

10.9 Cred rhai ymatebwyr sy'n disgwyl i bleidlais Brexit gael effaith negyddol ar eu harchebion yn y dyfodol y bydd ymwelwyr o dramor yn osgoi'r DU ac yn dewis mynd ar wyliau i rywle arall. Canfyddir bod rhai ymwelwyr – yn enwedig ymwelwyr o Ewrop – yn gweld y wlad fel un sy'n anghroesawgar tuag at ymwelwyr o dramor ers y penderfyniad i dynnu Prydain o'r UE.

*"Mae delwedd y DU wedi cael ei heffeithio'n andwyol – mae'n cael ei hystyried i fod yn anghroesawgar a hiliol."*
Llety hunanarlwyo

*"Bydd pobl yn osgoi Prydain."*
Llety â gwasanaeth

*"Yr agwedd tuag at bobl o dramor, mae pobl yn fwy pryderus ynglŷn â'r ymateb y gallant ei dderbyn."*
Llety hunanarlwyo

*"Dwi'n credu ein bod yn ymbellhau o Ewrop ac na fydd gan bobl gymaint o awydd ymweld â ni."*
Llety hunanarlwyo

### Gostyngiad ymddangosiadol yn hyder ymwelwyr

10.10 Mae teimlad o ansicrwydd o hyd ynglŷn â sut bydd pleidlais Brexit yn effeithio ar y wlad, a chred rhai busnesau y bydd hyn yn peri i bobl fod yn ddarbodus, gyda gostyngiad rhagweledig yn niferoedd yr ymwelwyr.

*"Rwy'n credu y bydd yn cael effaith eithaf negyddol gan fod pobl yn bur amheus o ansicrwydd y sefyllfa ac maent yn eithaf gofalus gydag arian. Nid ydynt yn poeni cymaint am wyliau, yn hytrach maent yn poeni am gynilo ar gyfer y dyfodol."*
Safle carafanau / gwersylla

*"Mae hyder wedi mynd, mae pobl yn ceisio gwneud i'r arian fynd yn bellach, nid yw pobl yn gwario llawer ar hyn o bryd."*
Llety â gwasanaeth